GORCHYMYN CYNGOR BRO MORGANNWG
(GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A LLWYTHO A MANNAU PARCIO)
(GORFODI SIFIL) (DIWYGIO) (RHIF 9) 2021

1. Hysbysir drwy hyn bod Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig gwneud Gorchymyn er mwyn gosod a diwygio cyfyngiadau parcio amrywiol ar y ffyrdd a nodir yn yr Atodlen isod.
2. Mae modd gweld manylion llawn a chynlluniau'r cynigion ar wefan y Cyngor yn www.bromorgannwg.gov.uk neu yn Nerbynfeydd y Swyddfeydd Dinesig a Depo'r Alpau, Gwenfô ac mae'n rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiadau a allai fod gennych i'r cynnig hwn i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai (Cyf. IF939) yn ysgrifenedig neu drwy e-bost i C1V@valeofglamorgan.gov.uk erbyn **17 Medi 2021** ac mae'n rhaid cynnwys eich rhesymau dros wrthwynebu.
3. Rhoddir gwybod i unrhyw un sy'n gwrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) 1985, fod rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor hwn i alluogi'r cyhoedd i archwilio unrhyw sylwadau a ddaw i law am y Gorchymyn arfaethedig.

Mae'r Gorchymyn Rheoli Traffig canlynol i'w ddiwygio fel a ganlyn:

Gorchymyn Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Mannau Parcio (Gorfodi Sifil) 2013

ATODLEN

Cynnig Gwahardd Aros ar Unrhyw Adeg
Cardiff Road, Y Barri – Map AT56

Ar ochr y gogledd-orllewin o bwynt 48 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd â Laura Street, tua'r gogledd-ddwyrain am 20 metr.
Ar ochr y gogledd-orllewin o bwynt 87 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd â Laura Street, tua'r gogledd-ddwyrain am 29 metr.
Ar ochr y gogledd-orllewin o bwynt 133.5 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd â Laura Street, tua'r gogledd-ddwyrain am 21 metr.
Ar ochr y gogledd-orllewin o bwynt 169 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd â Laura Street, tua'r gogledd-ddwyrain am 27 metr.
Ar ochr y de-orllewin o bwynt 145.5 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd â Laura Street, tua'r gogledd-ddwyrain am 49 metr.

Dyddiedig 27 Awst 2021
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai
Cyngor Bro Morgannwg, Yr Alpau, Gwenfô. CF5 6AA.